# RHEOLAU SEFYDLOG
# Pwyllgorau Academaidd

# RHEOLAU SEFYDLOG

Bydd y Rheolau Sefydlog canlynol yn berthnasol i Bwyllgorau Academaidd Prifysgol Aberystwyth.

## 1. DIWYGIO AC ATAL RHEOLAU SEFYDLOG

1. Gall adrannau o'r Rheolau Sefydlog hyn sy'n groes i Siarter, Ystatudau, Ordinhadau a Rheoliadau Prifysgol Aberystwyth gael eu dirymu neu eu diwygio gan y Senedd, neu gall ychwanegu atynt.

2. Gall Pwyllgorau Academaidd y Brifysgol (fel y manylwyd yn eu cylch yn gynharach yn y ddogfen hon) gynnig newidiadau neu ychwanegiadau i'r Rheolau Sefydlog hyn. Bydd angen i unrhyw gynigion gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Senedd cyn iddynt ddod i rym.

3. Bydd y Rheolau Sefydlog hyn yn cael eu hadolygu gan y Senedd bob pum mlynedd man lleiaf.

4. Gall adrannau o'r Rheolau Sefydlog hyn gael eu hatal ar gyfer eitem benodol o fusnes drwy gyfrwng pleidlais gan o leiaf ddau draean o'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Bydd y Rheolau Sefydlog yn dod i rym unwaith eto yn syth wedi i'r ystyriaeth o'r eitem benodol gael ei chwblhau.

## 2. AELODAETH Y PWYLLGORAU

1. <u>Penodi Aelodau</u>

    1. Bydd aelodaeth Pwyllgorau Academaidd unigol fel y'i hamlinellir yn eu Cylch Gorchwyl. Bydd unrhyw gynigion i newid aelodaeth un o is-bwyllgorau'r Senedd yn cael eu cyflwyno i'r Senedd eu cymeradwyo. Dirprwyir y cyfrifoldeb i'r Bwrdd Academaidd ystyried a chymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i aelodaeth unrhyw un o'i is-bwyllgorau.

    2. Bydd aelodaeth ex-officio o Bwyllgorau unigol yn cael ei chyflwyno i'r Senedd er mwyn ei chymeradwyo.

    3. Bydd aelodau cynrychioliadol yn cael eu henwebu gan yr etholaethau perthnasol a disgwylir iddynt adrodd yn ôl i'r etholaethau dan sylw ar y busnes a drafodwyd yn y pwyllgor. Pan fydd Cyfarwyddwyr a Rheolwyr yr Athrofeydd yn cael eu penodi i bwyllgor, dylent gynrychioli gwahanol Athrofeydd ac ystyried hefyd a oes unrhyw gynrychiolwyr eraill o'r Athrofa honno ar y pwyllgor dan sylw.

    4. Caniateir eilyddion ar gyfer aelodau lle gwneir darpariaeth o'r fath yn aelodaeth y Pwyllgor. Dylai pob aelod sy'n eilydd, ac unrhyw bersonau enwebedig sy'n bresennol ar ran aelodau rheolaidd ar sail ad-hoc, fod yn addas i'r pwyllgor dan sylw, yn wybodus ac yn gallu cyfrannu at drafodaethau â'r awdurdod angenrheidiol.

    5. Gall pwyllgorau wahodd unigolion ychwanegol i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd fel y bo angen, ond ni fydd gan yr unigolion hyn unrhyw hawliau pleidleisio ac ni ellir eu hystyried o safbwynt gofynion cworwm.

2. <u>Cyfnod yn y Swydd</u>

    1. Bydd aelodau ex-officio yn gwasanaethu ar bob Pwyllgor Academaidd cyhyd â'u bod yn dal y swydd y daethant yn aelodau o'r Pwyllgor yn ei rhinwedd.

2. Bydd enwebiad aelodau cynrychioliadol yn cael ei adolygu'n flynyddol gan yr etholaethau perthnasol. Mae'r aelodau cynrychioliadol presennol yn gymwys i gael eu hailbenodi i gynrychioli etholaeth.

3. Aelodau'n Ymddiswyddo ac Ymddeol

   1. Bydd aelod ex-officio yn peidio â bod yn aelod o Bwyllgor pan na fyddant yn y swydd honno mwyach.

   2. Bydd aelod cynrychioliadol yn peidio â bod yn aelod o Bwyllgor pan fydd aelod cynrychioliadol arall yn cael ei enwebu yn ei le gan yr etholaeth berthnasol.

   3. Gall aelod unigol gael ei dynnu oddi ar Bwyllgor penodol drwy benderfyniad gan y Senedd. Gall aelod o'r fath wneud cynrychiolaethau ysgrifenedig a mynychu ac annerch y cyfarfod o'r Senedd pan fydd y penderfyniad yn cael ei ystyried.

   4. Gall aelod gyflwyno ei ymddiswyddiad o Bwyllgor ar unrhyw adeg drwy roi gwybod i'r Cadeirydd a'r Clerc perthnasol. Yna dilynir y weithdrefn berthnasol i benodi aelod yn ei le.

4. Cadeirydd

   1. Penodir Cadeirydd i bob Pwyllgor Academaidd gan y Senedd. Bydd yr unigolyn a benodir yn aelod ex-officio o'r Pwyllgor, â'r cyfrifoldeb yn trosglwyddo i olynydd yr unigolyn pan fydd ef/hi yn gadael y swydd sy'n gysylltiedig â'r aelodaeth ex-officio.

   2. Os yw'r Cadeirydd a benodwyd yn absennol ar gyfer cyfarfod, bydd aelodau'r Pwyllgor, drwy bleidlais codi dwylo, yn ethol un o'u plith (ac eithrio cynrychiolwyr myfyrwyr) i lywyddu yn y cyfarfod penodol hwnnw.

   3. Pan fo pwyllgor sy'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd yn cael ei gadeirio gan unigolyn sydd wedi ei (h)enwebu gan y Dirprwy Is-ganghellor perthnasol, dylid ei (g)wahodd i fynychu cyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd i gael parhad, ac i adrodd ar y penderfyniadau a gymerwyd gan yr is-bwyllgor perthnasol.

## 3. PWERAU A CHYFRIFOLDEBAU PWYLLGORAU UNIGOL

Bydd pwerau a chyfrifoldebau Pwyllgorau Academaidd unigol fel y'u hamlinellir yn eu Cylch Gorchwyl. Bydd unrhyw gynigion i ddiwygio pwerau a chyfrifoldebau unrhyw Bwyllgor Academaidd yn cael eu hadrodd i'r Senedd er mwyn eu cymeradwyo.

## 4. IEITHOEDD SWYDDOGOL

Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Brifysgol. Bydd unrhyw gam a gymerir neu ddogfen a weithredir gan yr awdurdod priodol yn enw ac ar ran y Brifysgol yn ddilys ac yn effeithiol yn y naill iaith a'r llall.

## 5. CYNNAL BUSNES

1. Cyfarfodydd Arferol

   1. Bydd nifer y cyfarfodydd arferol sy'n ofynnol ar gyfer pob Pwyllgor Academaidd mewn blwyddyn academaidd yn cael ei amlinellu yng Nghylch Gorchwyl y pwyllgor hwnnw.

   2. Rhoddir gwybod i'r holl aelodau am ddyddiadau cyfarfodydd arferol heb fod yn hwyrach na dechrau'r flwyddyn academaidd pan gynhelir y cyfarfodydd hynny.

3. Os oes angen newid dyddiad cyfarfod arferol, rhoddir o leiaf bedwar niwrnod ar ddeg o rybudd i'r aelodau trwy gyfrwng y dulliau y cytunwyd arnynt.

2. Cyfarfodydd Arbennig

1. Gellir cynnull cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar amser a dyddiad a bennir gan Gadeirydd y Pwyllgor perthnasol. Bydd Clerc y pwyllgor perthnasol yn rhoi gwybod i'r aelodaeth am gyfarfodydd o'r fath o leiaf bedwar niwrnod ar ddeg ymlaen llaw trwy gyfrwng y dulliau y cytunwyd arnynt.

2. Mewn unrhyw gyfarfod arbennig, bydd y busnes wedi'i gyfyngu i'r hyn y rhoddwyd rhybudd ohono, ac unrhyw fusnes arall y mae'r Cadeirydd yn datgan ei fod yn codi'n uniongyrchol o'r busnes hwnnw.

3. Rhybudd o Gyfarfod

1. O leiaf saith niwrnod cyn pob cyfarfod, bydd Clerc y Pwyllgor perthnasol yn anfon rhybudd o gyfarfod o'r fath i'r holl aelodau drwy ddulliau priodol.

2. Bydd y rhybudd a'r agenda ar gyfer pob cyfarfod Pwyllgor Academaidd yn ddwyieithog.

3. Ni fydd peidio â rhoi rhybudd o gyfarfod yn ddamweiniol, neu'r ffaith fod unrhyw aelod ddim yn derbyn rhybudd o gyfarfod, yn golygu bod trafodion cyfarfod sydd â chworwm yn annilys.

4. Agendâu a Gwaith Papur y Pwyllgor

1. Bydd busnes cyfarfodydd arferol fel arfer yn cael ei drefnu yn dilyn trafodaethau rhwng y Cadeirydd a'r Clerc.

2. Bydd y papurau a fydd i'w hystyried mewn cyfarfod pwyllgor fel arfer yn cael eu dosbarthu i aelodau ar yr un pryd â'r agenda, fel arfer saith niwrnod cyn cyfarfod. Pan nad yw hyn yn ymarferol am resymau dilys, yna bydd papurau'n cael eu dosbarthu i aelodau ddim hwyrach na dau ddiwrnod cyn y cyfarfod. Ni fydd papurau sy'n cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn cael eu hystyried ac eithrio yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unig.

5. Trafodaethau, Cynigion a Gwelliannau

1. Bydd aelodau yn annerch y Cadeirydd ac yn cyfeirio eu hareithiau at y cwestiwn sy'n cael ei drafod, neu at esboniad personol, neu at bwynt o drefn. Ni fydd unrhyw araith yn hwy na deng munud ac eithrio gyda chaniatâd y Cadeirydd.

2. Bydd y rhai sy'n gweinyddu mewn cyfarfod, gan gynnwys y Clerc, yn cael siarad mewn cyfarfod drwy wahoddiad gan y Cadeirydd.

3. Bydd unrhyw amrywiadau ar gynnig neu gwestiwn sy'n cael ei drafod yn cael eu hystyried fel gwelliannau a chânt eu trin yn unol â hynny. Rhaid i bob gwelliant fod yn berthnasol i'r cynnig y cyflwynir ef yn ei gylch.

4. Dim ond un gwelliant y gellir ei gynnig a'i drafod ar yr un pryd, ac ni ellir cynnig unrhyw welliant pellach nes y penderfynir ar y gwelliant sy'n cael ei drafod.

5. Os yw gwelliant yn methu, gellir cynnig gwelliannau eraill ar y cynnig gwreiddiol. Os yw gwelliant yn cael ei basio, bydd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn cymryd lle'r cynnig gwreiddiol a hwn wedyn fydd y cynnig parhaol y gellir cyflwyno unrhyw welliant pellach iddo.

6. Gellir tynnu unrhyw gynnig neu welliant yn ôl, gyda chaniatâd y Cadeirydd, naill ai cyn neu yn ystod cyfarfod.

7. Bydd pob cynnig neu welliant yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Yn achos pleidleisiau cyfartal, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais ddyfarnu. Ni fydd gorfodaeth ar y Cadeirydd i ddefnyddio'r bleidlais ddyfarnu hon. Pan fydd y Cadeirydd yn gwrthod pleidleisio yn y modd hwn, gall y Cadeirydd ddatgan nad yw'r cynnig wedi'i basio.

8. Dim ond yn ôl disgresiwn y Cadeirydd neu benderfyniad gan y Pwyllgor y caniateir ystyried unrhyw fusnes nad yw wedi'i nodi ar yr agenda, gan roi ystyriaeth i frys y busnes.

6. <u>Gweithdrefnau Pleidleisio</u>

Bydd gan y Cadeirydd yr hawl i alw am bleidlais wedi'i recordio os yw ef/hi yn barnu bod y mater dan sylw o bwysigrwydd eithriadol i les y Sefydliad. Bydd hawl gan aelod heblaw'r Cadeirydd i gynnig y dylai mater gael ei benderfynu drwy gyfrwng pleidlais wedi'i recordio; bydd cynnig o'r fath, os caiff ei eilio, yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor a chaiff ei benderfynu gan fwyafrif syml drwy bleidlais codi dwylo.

7. <u>Cworwm</u>

Oni nodir fel arall, bydd traean o'r aelodaeth (wedi'i dalgrynnu i rif cyfan nesaf cyfanswm yr aelodaeth) yn cynrychioli cworwm ar gyfer pob cyfarfod arferol ac arbennig o Bwyllgor Academaidd. Yn absenoldeb cworwm, ymgynghorol fydd unrhyw fusnes ac ni wneir unrhyw benderfyniadau, heblaw am ohirio'r cyfarfod.

8. <u>Ymddygiad</u>

Os bydd aelod mewn cyfarfod Pwyllgor yn diystyru rheolau'r Cadeirydd yn barhaus neu'n ymddwyn yn afreolaidd, neu'n amhriodol, neu'n dramgwyddus, neu'n rhwystro busnes y Pwyllgor yn fwriadol, ac felly ym marn y Cadeirydd yn golygu ei bod yn amhosibl cynnal busnes yn y modd priodol a threfnus, gall y Cadeirydd, heb gwestiynu, ohirio neu atal y cyfarfod am ba bynnag gyfnod y mae'r Cadeirydd yn ei ystyried yn gyfleus.

7. <u>Cofnod o Fusnes Pwyllgor</u>

1. Bydd pob Pwyllgor Academaidd yn cyflwyno adroddiad o, neu gofnodion, pob cyfarfod i'w riant Bwyllgor, fel yr amlinellir yn ei Gylch Gorchwyl unigol.

2. Cedwir cofnod o bresenoldeb aelodau ac adroddir ar bresenoldeb ym mhob cyfarfod Pwyllgor yn y cofnodion. Dylid cyflwyno ymddiheuriadau am absenoldeb o gyfarfod i'r Clerc perthnasol.

8. <u>Ymdrin â Materion Brys</u>

Bydd y Cadeirydd yn cael ei awdurdodi i ymdrin â materion brys pan nad yw'n addas neu'n ymarferol galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor, a bydd yn adrodd ar hyn i gyfarfod arferol nesaf y Pwyllgor.